COMISIWN ELUSENNAU
AR GYFER CYMRU A LLOEGR

Y sail gyfreithiol

Gwrthdaro buddiannau: canllaw i ymddiriedolwyr elusen

Datganiad rhagarweiniol

Mae'r ddogfen hon yn grynodeb o farn y Comisiwn o'r gyfraith sy'n sail i'w gyhoeddiad Gwrthdaro buddiannau: canllaw i ymddiriedolwyr (CC29) elusen ac felly mae'n defnyddio iaith fwy technegol.

Nid yw'r dadansoddiad yn ceisio bod yn grynodeb cyfreithiol cynhwysfawr, ond yn hytrach yn fan cyfeirio defnyddiol i ymddiriedolwyr, eu cynghorwyr a'r cyhoedd. Mae'n ceisio adlewyrchu'r gyfraith ac arferion fel y maent ar 27 Mawrth 2014. Nid yw'n gyfreithiol rwymol. Mae'n cynnig dadansoddiad cyffredinol o'r gyfraith ond bydd addasrwydd y dadansoddiad i achos arbennig yn dibynnu ar holl ffeithiau'r achos hwnnw.

Mae'r Comisiwn yn mabwysiadu'r un ymagwedd â'r llysoedd a'r Tribiwnlys o ran cymhwyso'r gyfraith.

1. Cyflwyniad

Mae adnabod gwrthdaro buddiannau posibl yn gynnar a chymryd camau priodol i'w osgoi, ei ddileu neu ei reoli yn elfen allweddol i ymddiriedolwyr elusen yn eu gwaith o weinyddu elusennau yn briodol. Mae'r sail gyfreithiol hon yn edrych ar y gyfraith achosion a'r statudau sy'n ymwneud â'r mater hwn. Mae nifer o'r achosion perthnasol yn ymwneud ag ymddiriedolaethau preifat. Yn achos elusennau, mae'n bwysig bod ymddiriedolwyr yn gweithredu er lles yr elusen yn unig a'u bod yn gwneud eu penderfyniadau er mwyn hyrwyddo'r dibenion elusennol yn unig. Mae hyn wedi cael ei gadarnhau yn fwyaf diweddar gan Gerald J yn **Mountstar (PTC) Limited v The Charity Commission for England and Wales** 2013 WL 6865275 (gweler isod).

Mae DE 2011 yn cyfeirio at Ddeddf Elusennau 2011.

2. Dyletswydd i osgoi gwrthdaro buddiannau

Diffiniad o'r term 'dyletswydd i osgoi gwrthdaro buddiannau'

Defnyddir y term 'gwrthdaro buddiannau' yn aml i ddisgrifio un o'r sefyllfaoedd canlynol:

1) Pan fydd rhywun mewn sefyllfa lle y gall ei ddyletswydd fel ymddiriedolwr wrthdaro ag unrhyw fudd personol a all fod ganddo neu ganddi
2) Pan na fydd rhywun efallai'n gallu gweithredu'n briodol mewn rhinwedd arbennig oherwydd unigolyn neu fater y mae ganddo neu ganddi gysylltiad ag ef
3) Pan fydd rhywun yn gallu elwa'n bersonol o benderfyniadau sy'n cael eu gwneud yn eu rhinwedd fel ymddiriedolwr neu o'r wybodaeth a gânt drwy ddal swydd o'r fath.

Mae'r ddyletswydd i osgoi gwrthdaro buddiannau yn deillio o rwymedigaeth ymddiriedol teyrngarwch llwyr. Yn **Bristol and West Building Society v Mothew** [1998] Ch 1, 18 dywedodd Millett LJ:

> *"A fiduciary is someone who has undertaken to act for or on behalf of another in a particular matter in circumstances which give rise to a relationship of trust and confidence".*

Rhwymedigaeth arbennig rhywun mewn sefyllfa ymddiriedol yw'r rhwymedigaeth o deyrngarwch. Mae'r prif gorff yn gallu hawlio teyrngarwch llwyr y sawl sydd mewn sefyllfa. Mae sawl ymddiriedol agwedd i'r cyfrifoldeb craidd. Mae'n rhaid i'r sawl sydd mewn sefyllfa ymddiriedol *"must act in good faith; he must not make a profit out of his trust; he must not place himself in a position where his duty and his interest may conflict; he may not act for his own benefit or the benefit of a third person without the informed consent of his principal. This is not intended to be an exhaustive list, but it is sufficient to indicate the nature of fiduciary obligations."* **(Bristol and West Building Society v Mothew [1998] Ch 1, 18)**.

Wrth gwrs mae gan ymddiriedolwyr ddyletswyddau ymddiriedol. Yn ôl cyfraith gwlad roedd gan gyfarwyddwyr cwmnïau ddyletswydd ymddiriedol i weithredu gorau a allant i hyrwyddo buddiannau'r cwmni (gweler **Aberdeen Railway v Blaikie** isod). Ond erbyn hyn mae ganddyn nhw ac ymddiriedolwyr Sefydliad Corfforedig Elusennol ddyletswyddau statudol i osgoi gwrthdaro buddiannau (gweler Rhan 7 y canllaw hwn).

Mae dyletswydd statudol gan ymddiriedolwyr elusen Sefydliad Corfforedig Elusennol (SCE) (adran 221 o DE 2011) i arfer eu pwerau a'u swyddogaethau yn y ffordd a benderfynant, mewn ewyllys da, y byddai'n fwyaf tebygol o hyrwyddo dibenion y SCE. Yn unol â hynny, yn sicr maent yn bobl mewn sefyllfa ymddiriedol. Yn wir, bydd unrhyw un sy'n gweithredu fel ymddiriedolwr elusen beth bynnag fo strwythur yr elusen yn gweithredu yn rhinwedd ymddiriedol.

Yn **Aberdeen Railway v Blaikie** [1843-60] All ER Rep 249 dywedodd yr Arglwydd Cranworth:

> *"it is a rule of universal application that no one having such duties [ie fiduciary duties] to discharge shall be allowed to enter into engagements in which he has or can have a personal interest conflicting or which possibly may conflict..."*

Cafodd ystyr y geiriau *'possibly may conflict'* ei hystyried gan yr Arglwydd Upjohn yn **Boardman v Phipps** [1967] 2 AC 46 HL:

> *"In my view it means that the reasonable man looking at the relevant facts and circumstances of the particular case would think that there was a real sensible possibility of conflict; not that you could imagine some situation arising which might, in some conceivable possibility in events not contemplated as real sensible possibilities by any reasonable person, result in a conflict."*

Felly, mae canfyddiad rhesymol bod gwrthdaro buddiannau yn bodoli yn ddigonol os yw'r amgylchiadau yn cefnogi hynny. Ategir hyn ymhellach gan **R v Solicitors Complaints Bureau** [1996] 6 CL 411 lle y barnwyd fod y geiriau *'provided no conflict of interest appears'* yn r.6.2 o Reolau Arferion Cyfreithwyr 1988 yn gorfod golygu'r hyn oedd yn amlwg i gyfreithiwr rhesymol oedd yn yr un sefyllfa â'r cyfreithiwr dan sylw.

Yn **Bray v Ford** [1896] AC 44, 51 dywedodd yr Arglwydd Herschell:

> *"It is an inflexible rule of a Court of Equity that a person in a fiduciary position……is not allowed to put himself in a position where his interest and duty conflict. It does not appear to me that this rule is, as has been said, founded upon principles of morality. I regard it rather as based on the consideration that human nature being what it is, there is danger, in such circumstances, of the person holding a fiduciary position being swayed by interest rather than duty, and thus prejudicing those whom he was bound to protect."*

Mae'r datganiad hwn yn ei gwneud hi'n hollol glir pam y dylid osgoi gwrthdaro o'r fath neu ei ddileu lle bynnag y bo'n bosibl. Mae hefyd yn glir mai bodolaeth y gwrthdro yw'r hyn y dylid ei osgoi, hyd yn oed os na ellir dweud bod y budd sy'n gwrthdaro wedi dylanwadu ar benderfyniad arbennig.

Aeth yr Arglwydd Herschell ymlaen i ddweud:

> *"I am satisfied that it* [ie the rule] *might be departed from in many cases, without any breach of morality, without any wrong being inflicted, and without any consciousness of wrong-doing. Indeed, it is obvious that it might sometimes be to the advantage of the beneficiaries that their trustee should act for them professionally rather than a stranger, even though the trustee were paid for his services."*

Fodd bynnag, nid oedd hyn yn newid y ffaith bod y sawl mewn swydd ymddiriedol yn parhau i weithredu'n groes i'r ddyletswydd ymddiriedol i osgoi gwrthdaro buddiannau hyd yn oed os oedd yr ymddiriedolwr yn llawn bwriadau da ac o'r farn ei fod yn gweithredu er lles yr elusen.

Mae'r Arglwydd Langdale MR yn **AG v Kerr** (1840) 2 Beav 420, 428 yn amlinellu'r materion y dylai ymddiriedolwyr elusen eu hystyried wrth wneud unrhyw benderfyniad:

> *"A man acting for himself may indulge his own caprices, and consider what is convenient or agreeable to himself, as well as what is strictly prudent, and his prudential motives cannot afterwards be separated from the others which may have governed him. Trustees of a charity within the limits of their authority, whatever they may be, should be guided only by a desire to promote the lasting interest of the charity."*

Yn fwy diweddar, dywedodd Hart J yn **The Public Trustee & anor v Paul Cooper & ors** [1999] WL 1425717 mewn perthynas â'r ymddiriedolaeth elusennol oedd dan sylw yn yr achos hwnnw:

> *"The* [Charitable Fund] *trustees owe duties to no one but their charitable objects and have no powers to benefit any but their charitable objects"*

Dywedodd Gerald J yn **Mountstar (PTC) Limited v The Charity Commission for England and Wales** 2013 WL 6865275 ym mharagraff 246, mewn perthynas â rôl y Comisiwn Elusennau:

> *"It is the role of the Commission to promote compliance by charity trustees with their legal obligations in exercising control and management over the administration of charities and their accountability to donors, beneficiaries and the general public. One aspect of those overarching objectives is to ensure that charity trustees act in accordance with the standards of ordinary prudent men* (sic) *of business and independently of any conflicted party."*

3. Hunanddelio

Yn **Tito v Waddell (No 2)** [1977] 3 All ER 129, 241 dywedodd Megarry V-C:

> *"The self dealing rule is (to put it very shortly) that if a trustee sells the trust property to himself the sale is voidable by any beneficiary ex debito justitiae, however fair the transaction."*

Mae hyn yn deillio o'r rheol 'dim gwrthdaro'. Fel y pwysleisiodd Vinelott J yn **Re Thompson's Settlement** 1986 Ch 99:

> *"It is clear that the self-dealing rule is an application of the wider principle that a man must not put himself in a position where duty and interest conflict or where his duty to one conflicts with his duty to another: see in particular the opinion of Lord Dunedin in Wright v. Morgan [1926] A.C. 788 which I have cited. The principle is applied stringently in cases where a trustee concurs in a transaction which cannot be carried into effect without his concurrence and who also has an interest in or owes a fiduciary duty to another in relation to the same transaction. The transaction cannot stand if challenged by a beneficiary because in the absence of an express provision in the trust instrument the beneficiaries are entitled to require that the trustees act unanimously and that each brings to bear a mind unclouded by any contrary interest or duty in deciding whether it is in the interest of the beneficiaries that the trustees concur in it."*

Felly, bodolaeth y gwrthdaro sy'n arwain at dorri dyletswydd, nid unrhyw gamau arbennig sy'n cael eu cymryd o ganlyniad i hynny. Yn **Ex parte Lacey** (1802) 6 Ves Jr 625 dywedodd yr Arglwydd Ganghellor, yr Arglwydd Eldon, pan oedd gwrthdaro buddiannau a allai effeithio ar drafodiad roedd tor-ddyletswydd hyd yn oed os nad oedd unrhyw fantais i'r ymddiriedolwr.

Yn absenoldeb awdurdodiad penodol, mae'r egwyddor hon yn wir waeth pa mor deg yw telerau'r trafodiad arfaethedig. Mae hyn yn cael ei egluro gan yr Arglwydd Cranworth yn **Aberdeen Railway v Blaikie**:

> *"So strictly is this principle adhered to that no question is allowed to be raised as to the fairness or unfairness of a contract so entered into.....It may sometimes happen that the terms on which a trustee has dealt or attempted to deal with the estate or interests of those for whom he is a trustee have been as good as could have been obtained from any other person; they may even at the time have been better. But still so inflexible is the rule that no inquiry on that subject is permitted. The English authorities on this subject are numerous and uniform .....The inability to contract depends not on the subject-matter of the agreement, but on the fiduciary character of the contracting party."*

Pwysleisiodd Parker LJ yn **Bhullar v Bhullar** [2003] EWCA Civ 424@27-28 yn achos hunanddelio nid oes angen unrhyw ddelio amhriodol ar wahân i'r gwrthdaro:

> *"I agree ..... that the concept of a conflict between fiduciary duty and personal interest presupposes an existing fiduciary duty. But it does not follow that it is a prerequisite of the accountability of a fiduciary that there should have been some improper dealing with property 'belonging' to the party to whom the fiduciary duty is owed, that is to say with trust property.....In a case such as the present, where a fiduciary has exploited a commercial opportunity for his own benefit, the relevant question, in my judgment, is not whether the party to whom the duty is owed (the company, in the instant case) had some kind of beneficial interest in the opportunity: in my judgment that would be too formalistic and restrictive an approach. Rather, the question is simply whether the fiduciary's exploitation of the opportunity is such as to attract the application of the rule."*

Mae'r datganiad olaf hwn hefyd yn ei gwneud hi'n hollol glir bod y rheol 'dim gwrthdaro' yn gymwys i dâl neu drafodion ond hefyd i sefyllfaoedd lle, er enghraifft, mae ymddiriedolwr hefyd yn fuddiolwr posibl elusen neu lle y gallai gael mantais bersonol, e.e. ei benodi fel cyfarwyddwr cwmni elusennol neu gael cyfranddaliadau a geir dim ond drwy ei swydd fel ymddiriedolwr ac ati. Felly mae'n rhaid i gyrff megis awdurdodau lleol sy'n gweithredu mewn mwy nag un rhinwedd neu ymddiriedolwyr sy'n ymddiriedolwyr-ddefnyddwyr fod yn arbennig o ofalus o'r ffynhonnell bosibl hon o wrthdaro buddiannau.

Yn **Keech v Sandford** (1726) Select Cases Temp. King 61 roedd yr Arglwydd Ganghellor wedi ystyried yr achos o brydles wedi'i chymynnu i ymddiriedolwr er budd plentyn bach. Roedd y prydleswr wedi gwrthod adnewyddu'r brydles i'r plentyn bach felly roedd yr ymddiriedolwr wedi cymryd y brydles ei hun. Dywedodd yr Arglwydd Ganghellor:

> *"I do not say there was a fraud in this case, yet he should rather have let it run out, than to have had the lease to himself. This may seem hard, that the trustee is the only person of all mankind who might not have the lease: but it is very proper that rule should be strictly pursued, and not in the least relaxed; for it is very obvious what would be the consequence of letting trustees have the lease, on refusal to renew to cestui que use."*

Mae'r rheol 'dim elw' yn deillio o'r achos hwn, sef, os yw ymddiriedolwyr heb awdurdod yn gwneud elw yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol drwy ddefnyddio eiddo sy'n amodol ar ymddiriedolaeth neu berthynas ymddiriedol arall neu yn ystod y berthynas ymddiriedol a thrwy rinwedd y swydd ymddiriedol, ni chaniateir iddynt gadw'r elw.

Mae'r rheolau 'dim gwrthdaro' a 'dim elw' yn gymwys hyd yn oed:

(i) pan fydd ymddiriedolwr yn gweithredu'n onest ac mewn ewyllys da;

(ii) pan na fu unrhyw anfantais i'r elusen, neu mae wedi elwa;

(iii) pan na allai'r elusen, neu ni fyddai wedi gallu cael y fantais a gafwyd gan yr ymddiriedolwr.

Fodd bynnag, mae unrhyw achos yn ymwneud â hunanddelio yn debygol o gael ei ddwyn naill ai gan y Twrnai Gwladol neu gan y Comisiwn Elusennau (yn gweithredu o dan adran 114 o DE 2011). Os yw trafodiad hunanddelio arfaethedig er lles yr elusen, mae modd i'r Comisiwn Elusennau ei awdurdodi o dan adran 105 o DE 2011. Mae unrhyw achos mewn perthynas â hunanddelio yn debygol o gael ei ddwyn os nad yw'r trafodiad er lles yr elusen.

Mae'r rheol hunanddelio yn gymwys i drafodion rhwng ymddiriedolwr a'r elusen yn unig, nid trafodion rhwng yr elusen a'r unigolion sy'n gysylltiedig â'r ymddiriedolwr megis priod[1] neu gwmni y mae'r ymddiriedolwr yn berchen ar gyfranddaliadau ynddo. Mewn achosion o'r fath, er na ellir ei ddirymu'n awtomatig, caiff y trafodiad ei ystyried yn ofalus iawn i weld a fu unrhyw ragfarn i'r elusen. Yn **Ferraby v Hobson** (1847) 2 Phillips 255 dywedodd yr Arglwydd Ustus Cottenham:

> *"Trustees expose themselves to great peril in allowing their own relatives to intervene in any matter connected with the execution of the trust; for the suspicion which that circumstance is calculated to excite, where there is any other fact to confirm it, is one which it would require a very strong case to remove."*

Yn **Burrell v Burrell's Trustee** (gweler troednodyn 1) dyfynnodd yr Arglwydd Mackenzie hyn gyda chymeradwyaeth ac aeth ymlaen i ddweud:

> *"Therefore I venture to remark that in all cases of this class the Court will seek to be certain, by vigilant scrutiny, of the true nature of such a transaction; because one can readily see that the close relationship between husband and wife may, unless the nature of the transaction is explained give rise to the not unnatural inference that the husband was truly the party intervening in the case, and that not without benefit to himself."*

Mae hefyd angen ystyried a yw benthyciadau i ymddiriedolwyr neu gan ymddiriedolwyr yn gallu cael eu hystyried fel hunanddelio.

Yn **Anon v Walker** (1828) 5 Russell 7 dywedodd Meistr y Roliau:

> *"When a testator empowers three executors to lend money on personal security, he must be taken to rely upon the united vigilance of the three with respect to the solvency of the borrower. If two of the three lend it to the third, this object is defeated, and it is a breach of trust."*

Yn **Marley v Mutual Security Merchant Bank & Trust Co Ltd** [1995] CLC 261 dywedodd yr Arglwydd Griffiths wrth gyflwyno ei farn i'r Cyfrin Gyngor:

> *"In the opinion of their Lordships the judge was right to refuse to approve the conduct of the bank in placing estate funds on yearly deposit with itself, and to refuse to permit them to do so in the future.*
>
> *It is a rule so well established that no authority need be cited that a trustee in the absence of specific permission in the trust instrument or given by the beneficiaries is not entitled to make a profit for itself out of trust funds. A bank makes profits by taking money on deposit and then lending that money at a higher rate of interest than it pays on the deposit. This raises an immediate conflict of interest between the duty the bank owes to the beneficiaries which is to obtain the highest rate of interest on the deposit, and the duty to its shareholders to pay the lowest rate of interest on the deposit and thus maximise its profit when it lends the deposit to other customers."*

Byddai rhesymeg yr achosion hyn yn awgrymu y byddai gwrthdaro buddiannau diawdurdod pan fydd ymddiriedolwr yn benthyca arian i elusen - mae gan yr ymddiriedolwr fel y benthyciwr wahanol fuddiannau i ymddiriedolwr yn ei rinwedd fel ymddiriedolwr sy'n gweithredu er lles gorau'r elusen.

1 **Burrell v Burrell's Trustees** 1915 SC 333.

Fodd bynnag, yn **The Attorney-General v Hardy** (1851) 1 Simons, New Series 338 roedd yr Is-ganghellor wedi cynnal dilysrwydd morgeisio'r ystad lle roedd un o'r ymddiriedolwyr yn forgeisiai:

> *"It was necessary to raise money by mortgage for the purposes of the trust and that the money should be advanced by one of the trustees was natural and quite proper."*

Roedd hyn yn y cyd-destun o bŵer penodol i forgeisio'r eiddo er nad oedd unrhyw bŵer penodol neu ymhlyg i forgeisio'r eiddo i'r ymddiriedolwr. Fodd bynnag, dywedodd yr Is-ganghellor:

> *"It may be that, in taking the account of what is due to him on his security, the parties interested in the trust of the deed may not be bound by the statement of the sum said to be advanced. In taking the account there may be various equities arising out of the character of Hardy as trustee, or as representing William Hardy deceased, the original mortgagee, which would not attach on a mere stranger. But this goes only to the question of the amount due, and not to the right of insisting on the character of mortgagee."*

Felly byddai'n ymddangos bod y llysoedd yn mabwysiadu ymagwedd llai caeth mewn perthynas â benthyciadau gan ymddiriedolwyr na benthyciadau i ymddiriedolwyr. Heb os, byddai'n rhaid i ymddiriedolwr roi cyfrif i'r elusen am unrhyw swm gormodol o log a godir gan yr ymddiriedolwr - fenthyciwr, ond nid mae'n debyg am yr holl log.

Mae'r llysoedd hefyd wedi barnu nad yw ymddiriedolwyr sy'n benthyca eu harian eu hunain fel morgeisiai i drydydd parti i brynu eiddo ymddiriedolaeth yn hunanddelio o reidrwydd.

Fodd bynnag, gall fod rhaid i'r ymddiriedolwyr gyfiawnhau sut mae eu penderfyniad mewn perthynas â gwerthu'r eiddo wedi'i wneud er lles yr elusen.

4. Canlyniadau peidio ag osgoi gwrthdaro buddiannau

Atebolrwydd i'r elusen am golled sy'n codi o dor-ymddiriedaeth

Mae ymddiriedolwyr elusen sy'n achosi colled i elusen i drwy eu tor-ymddiriedaeth yn debygol o fod yn atebol i'r elusen i wneud iawn am y golled honno.

Yn **Target Holdings Ltd. Respondent v Redferns (A Firm) and Another Appellants** [1996] AC 421, 434 HL dywedodd yr Arglwydd Browne-Wilkinson:

> *".....in the case of a breach of such a trust involving the wrongful paying away of trust assets, the liability of the trustee is to restore to the trust fund, often called 'the trust estate,' what ought to have been there.....the basic rule is that a trustee in breach of trust must restore or pay to the trust estate either the assets which have been lost to the estate by reason of the breach or compensation for such loss....Even if the immediate cause of the loss is the dishonesty or failure of a third party, the trustee is liable to make good that loss to the trust estate if, but for the breach, such loss would not have occurred."*

Dyletswydd yr ymddiriedolwr i roi cyfrif i'r elusen am unrhyw fudd heb ei awdurdodi

Roedd y rheol 'dim elw' sy'n deillio o'r achos **Keech v Sandford** (1726) y cyfeirir ato uchod wedi cael ei ystyried fel rhan o'r rheol ehangach na ddylai ymddiriedolwr roi ei hun mewn sefyllfa lle y gallai ei ddyletswydd a'i fudd wrthdaro, yn unol â'r Arglwydd Upjohn yn **Boardman v Phipps** [1967] 2 AC 46 HL a ddywedodd ym mharagraff 123:

> *"The relevant rule for the decision of this case is the fundamental rule of equity that a person in a fiduciary capacity must not make a profit out of his trust which is part of the wider rule that a trustee must not place himself in a position where his duty and his interest may conflict."*

Dylid nodi bod y gwaharddiad hwn yn gymwys pe byddai'r elw neu'r budd sy'n codi yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ac felly hefyd yn dal unigolion cysylltiedig a gall hefyd ddal, er enghraifft, buddiolwyr-ddefnyddwyr neu ymddiriedolwyr, neu ymddiriedolwyr sydd hefyd yn weithwyr corff â buddiant. Eglurir hyn yn Millett LJ in **Bristol and West Building Society v Mothew** [1998] Ch. 1, 18: gweler o dan baragraff 2 'Dyletswydd i osgoi gwrthdaro buddiannau' uchod.Mae'r rheol 'dim elw' hon wedi cael ei hailgadarnhau drosodd a throsodd fel y pwysleisiodd yr Arglwydd Cranworth yn **Aberdeen Railway v Blaikie**:

> *"The English authorities on this subject are numerous and uniform. The principle was acted on by LORD KING in Keech v Sandford and by LORD HARDWICKE, in Whelpdale v Cookson and the whole subject was considered by LORD ELDON on a great variety of occasions."*

Dywedodd Cohen J yn **Re Macadam** [1946] Ch 73:

> *"The principle is one which has always been regarded as of the greatest importance in these courts, and I do not think I ought to do anything to weaken it. As I have said, although the remuneration was remuneration for services as director of the company, the opportunity to receive that remuneration was gained as a result of the exercise of a discretion vested in the trustees, and they had put themselves in a position where their interest and duty conflicted. In those circumstances, I do not think this court can allow them to make a profit out of doing so."*

Ac yn yr un modd Is-iarll Dunedin yn **Wright v Morgan** [1926] AC 797-798, apêl gan Seland Newydd i'r Cyfrin Gyngor:

> *"It would be profitless to quote the many cases which have arisen to illustrate the doctrine. They may all be referred to the same root idea, that equity will not allow a person, who is in a position of trust, to carry out a transaction where there is a conflict between his duty and his interest."*

Mae'n amlwg o eiriau Is-iarll Dunedin bod y rheol sylfaenol hon i'w chymhwyso'n hyblyg pryd bynnag y mae'r 'syniad creiddiol' yr un fath ac felly mae'n dal nid yn unig, er enghraifft, tâl ymddiriedolwyr ond yr holl sefyllfaoedd lle y gallai gwrthdaro o'r fath godi, beth bynnag fo'r amgylchiadau. Gall trafodion o'r fath gynnwys y caffael, neu waredu eiddo elusen gan neu i ymddiriedolwr elusen neu ddyfarnu contract gwasanaeth i ymddiriedolwr, neu hyd yn oed os yw elusen, dyweder, yn gorff rhoi grantiau neu'n ddarparwr gwasanaeth ac mae ymddiriedolwr neu berthynas agos yn fuddiolwr neu'n ddefnyddiwr posibl gwasanaeth o'r fath. Mynegir hyn gan yr Arglwydd Upjohn yn **Boardman v Phipps** fel a ganlyn:

> *"Rules of equity have to be applied to such a great diversity of circumstances that they can be stated only in the most general terms and applied with particular attention to the exact circumstances of each case."*

Dywedodd Harman J yn **Re Gee** [1948] Ch 284@ 295:

> *"A trustee who either uses a power vested in him as such to obtain a benefit (as in In re Macadam) or who (as in Williams v. Barton) procures his co-trustees to give him, or those associated with him, remunerative employment must account for the benefit obtained. Further, it appears to me that a trustee who has the power, by the use of trust votes, to control his own appointment to a remunerative position, and refrains from using them with the result that he is elected to the position of profit, would also be accountable."*

Gall gwaredu eiddo'r elusen sy'n torri'r rheolau hyn gael ei neilltuo

Hyd yn oed os nad oes budd i'r ymddiriedolwr ac felly nid yw unrhyw ddyletswydd i roi cyfrif yn codi, gall trafodiad gan ymddiriedolwr elusen sydd â gwrthdaro buddiannau gael ei herio.

Mewn ymddiriedolaethau preifat, mae trafodiad hunanddelio yn ddirymadwy gan fuddiolwr yr ymddiriedolaeth breifat. Yn achos elusen, mae dosbarth o fuddiolwyr yn hytrach na'r buddiolwyr unigol. Yn unol â hynny, gallai achos i ddatgan bod trafodiad wedi'i ddirymu gael ei ddwyn gan y Twrnai Gwladol yn ei rôl fel y sawl sy'n cynrychioli'r buddiannau elusennol. Mae hyn yn codi o'i swyddogaeth o gynrychioli'r Goron fel *parens patriae*.

O dan adran 114 o DA 2011, gall y Comisiwn Elusennau arfer yr un pwerau â'r Twrnai Gwladol o ran dwyn achos cyfreithiol gan gyfeirio at elusennau neu eiddo neu fusnes yr elusen. Rhaid cael cytundeb y Twrnai Gwladol er mwyn i'r Comisiwn arfer y pwerau hyn.

5. Gwrthdaro buddiannau wedi'i awdurdodi

Mae'r Arglwydd Reid yn **IRC v Brown** [1965] AC 244 @ 257 yn nodi:

> *"The general principle is well settled. A solicitor has a fiduciary duty to his clients and any person who has such a duty "shall not take any secret remuneration or any financial benefit not authorised by the law, or by his contract, or by the trust deed under which he acts, as the case may be" (per Lord Normand in Dale v. Inland Revenue Commissioners). If the person in a fiduciary position does gain or receive any financial benefit arising out of the use of the property of the beneficiary he cannot keep it unless he can show such authority."*

Gall awdurdod gael ei roi gan:

1 y gyfraith

(a) gan y broses gyfreithiol

Fel y nodwyd gan Cross J yn **Re Brooke Bond & Co Ltd's Trust Deed** [1963] Ch 357@ 365 gall hyn fod drwy awdurdod y llys:

> *"I appreciate that it may well be that the chances of there being a conflict between interest and duty are less in the case of transactions between a custodian trustee and managing trustees than they are in the case of transactions between an ordinary trustee and his co-trustees. But the possibility of conflict is still there and the rule, as Lord Herschell pointed out in Bray v. Ford, is an inflexible one unless the trust instrument provides for a profit being made by the trustees or the court makes a special order in a particular case"*

Mae awdurdodaeth gan y Comisiwn hefyd o dan adran 105 o Ddeddf Elusennau 2011 i awdurdodi ymddiriedolwyr i ymrwymo i drefniadau arbennig os yw'r Comisiwn yn fodlon eu bod er lles yr elusen.

(b) drwy ddarpariaeth statudol gymwysadwy

Enghraifft o hyn yw adran 185 o Ddeddf Elusennau 2011, sy'n awdurdodi tâl ar gyfer gwasanaethau a ddarperir i elusen gan ymddiriedolwr elusen.

2) drwy gontract neu weithred ymddiriedolaeth

Mae cyfansoddiad cymdeithas anghorfforedig yn fath o gontract rhwng yr aelodau fel y mae (i) erthyglau cymdeithasu o ran aelodau cwmni elusennol a (ii) cyfansoddiad SCE o ran aelodau'r SCE. Gall pŵer penodol a roddwyd gan y ddogfen lywodraethol (a'i ddefnyddio'n briodol a heb unrhyw dwyll ar bŵer o'r fath) awdurdodi gwrthdaro.

Fodd bynnag, mae'n werth nodi'n benodol hyd yn oed os oes pŵer penodol yn y ddogfen lywodraethol yn awdurdodi e.e. talu ymddiriedolwyr neu drafodiad, nid yw hyn yn drech na'r rhwymedigaeth ymddiriedol i weithredu er lles yr elusen a gall penderfyniad bwrdd yr ymddiriedolwyr gael ei ddiawdurdodi o hyd os yw'r ymddiriedolwyr yn gweithredu yn groes i fuddiannau'r elusen.

Roedd Hart J yn **Public Trustee & anor v Paul Cooper & ors** [1999] WL 1425717 wedi delio â'r sefyllfa pan fydd penderfyniad ymddiriedolwr yn cael ei gwestiynu. Yn yr achos hwn nid oedd unrhyw awdurdod ar gyfer y gwrthdaro dan sylw:

> *"The relative absence of authority certainly suggests that there is no iron rule that, where such action has taken place, a beneficiary is entitled* ex debito justitiae *to have it set aside. Equally, one would expect to find, in the absence of such an iron rule, that, where such action is challenged on such grounds, the onus would be thrown upon the trustee to demonstrate that the conflicting interest or duty has not in fact operated in a vitiating way.....If they do not do so, they run the risk of having to justify the exercise of their discretion in subsequent hostile litigation and then satisfy the court that their decision was not only one which any reasonable body of trustees might have taken but was also one that had not in fact been influenced by the conflict."*

Hyd yn oed mewn amgylchiadau lle mae taliadau neu drafodion eraill wedi'u hawdurdodi gan ddogfen lywodraethol yr elusen ac mae gweithdrefn ar gyfer rheoli gwrthdaro posibl ac mae'r penderfyniad perthnasol wedi cael ei wneud gan ymddiriedolwyr sy'n annibynnol ac sydd heb unrhyw fudd personol wedi'i freinio yn y penderfyniad, bydd rhaid i'r ymddiriedolwyr fodloni eu hunain bod eu penderfyniad a'r trafodiad neu'r trefniadau dilynol yn 'gadarn', a bod modd eu cyfiawnhau.

6. Rheoli gwrthdaro buddiannau

Weithiau er gwaethaf ymdrechion gorau'r ymddiriedolwyr, bydd gwrthdaro yn codi. Mae'r llysoedd wedi cyfeirio at reoli gwrthdaro buddiannau. Nid yw hyn yn golygu gweithredu fel pe na bai'n bodoli. Mae'n golygu sicrhau nad yw'r gwrthdaro yn atal y penderfyniad rhag cael ei wneud dim ond er lles yr elusen a gall yr ymddiriedolwyr ddangos hyn.

Dywedodd Hart J yn **The Public Trustee & anor v Paul Cooper & ors**:

> *"In some areas of our law the existence of conflicts of this kind is recognised and managed by a variety of devices, ranging from requiring the affected person to declare his interest to requiring him to abstain from participation in the relevant decision-making process.....Where a trustee has such a private interest or competing duty, there are, as it seems to me, three possible ways in which the conflict can, in theory, successfully be managed."*

Aeth Hart J ymlaen i ddelio â phob un yn ei dro:

Ymddiswyddo

> *"One is for the trustee concerned to resign."*

Mae'n amlwg y bydd hyn yn briodol os yw'r gwrthdaro mor hollbresennol ac felly nid oes modd ei reoli mewn unrhyw ffordd arall.

Mewn rhai achosion, ni fydd ymddiswyddiad yr ymddiriedolwr yn achub trafodiad oherwydd daw'r ymddiswyddiad yn rhy hwyr ac mae'r gwrthdaro eisoes wedi cyfaddawdu'r trafodiad. Yn y sefyllfaoedd hyn mae'n bosibl y bydd yr ymddiriedolwr yn parhau i fod yn atebol am unrhyw golled i'r elusen neu gall y trafodiad a gyfaddawdwyd cael ei ddirymu.

Fodd bynnag, roedd Hart J wedi cydnabod bod amgylchiadau pan y gellid cyfiawnhau penderfyniad ymddiriedolwr i beidio ag ymddiswyddo:

> *"This will not always provide a practical or sensible solution. The trustee concerned may represent an important source of information or advice to his co-trustees or have a significant relationship to some or all of the beneficiaries such that his or her departure as a trustee will be potentially harmful to the interests of the trust estate or its beneficiaries."*

Yn yr amgylchiadau hyn, rhagwelwyd bod dull priodol o reoli'r gwrthdaro mewn rhyw ffordd arall.

Ildio disgresiwn i'r llys

> *"Secondly, the nature of the conflict may be so pervasive throughout the trustee body that they, as a body, have no alternative but to surrender their discretion to the court."*

Byddai hyn yn golygu gwneud cais i'r llys, a fyddai'n golygu bod rhaid i achos yr elusen gael ei awdurdodi gan y Comisiwn Elusennau o dan adran 115 o DE 2011. Cyn rhoi caniatâd o'r fath, mae'n rhaid i'r Comisiwn ystyried a oes modd delio â'r mater o dan ei bwerau eraill. Mae modd i'r Comisiwn Elusennau o dan adran 105 o DE 2011 awdurdodi'r ymddiriedolwyr i wneud rhywbeth na fyddent wedi'u hawdurdodi i'w wneud fel arall. Yn sgil hyn, mae'r amgylchiadau lle mae ildio i ddisgresiwn y llys yn debygol o gael ei weithredu yn gyfyngedig iawn.

Ni all ymddiriedolwyr ildio eu disgresiwn i'r Comisiwn fel y gallant i'r llys ond gall y Comisiwn awdurdodi ymddiriedolwyr â gwrthdaro i wneud penderfyniad arbennig os yw'r ymddiriedolwyr yn gallu bodloni'r Comisiwn eu bod yn gweithredu er lles gorau'r elusen; yna gall y Comisiwn awdurdodi'r penderfyniad fel un sy'n fuddiol er lles yr elusen. Wrth ddod i benderfyniad o'r fath, fodd bynnag, bydd y Comisiwn yn mabwysiadu ymagwedd sy'n gyson ag ymagwedd y llys.

Gwneud penderfyniadau er gwaethaf gwrthdaro

> *"Thirdly, the trustees may honestly and reasonably believe that, notwithstanding a conflict affecting one or more of their number, they are nevertheless able fairly and reasonably to take the decision."*

Rhybuddiodd Hart J beryglon gwneud hyn.

> *"In this third case, it will usually be prudent, if time allows, for the trustees to allow their proposed exercise of discretion to be scrutinised in advance by the court, in proceedings in which any opposing beneficial interests are properly represented, and for them not to proceed unless and until the court has authorised them to do so. If they do not do so, they run the risk of having to justify the exercise of their discretion in subsequent hostile litigation and then satisfy the court that their decision was not only one which any reasonable body of trustees might have taken but was also one that had not in fact been influenced by the conflict."*

Mae hyn yn egluro bod rhaid i'r ymddiriedolwyr wneud mwy da dim ond gwneud penderfyniad y gallai corff rhesymol o ymddiriedolwyr ei wneud. Mae'n rhaid iddynt allu dangos nad ydynt wedi cael eu dylanwadu gan y gwrthdaro. Mewn rhai achosion gall fod yn anodd iawn i wneud hyn ac, fel y nodwyd yn yr adran flaenorol ac yn sgil sylwadau Gerald J isod yn **Mountstar (PTC) Limited v The Charity Commission for England and Wales**, gall y Comisiwn neu'r llys (fel y bo'n gymwys) gymhwyso meini prawf ehangach a mabwysiadu ymagwedd llai rhwymedig wrth graffu ar unrhyw benderfyniadau ymddiriedolwyr ac arfer eu disgresiwn i wneud penderfyniadau.

Yn aml iawn bydd dogfennau llywodraethol yn gwneud darpariaeth y dylai ymddiriedolwr â gwrthdaro fod yn absennol o'r trafodaethau a'r penderfyniad perthnasol, a gall yr ymddiriedolwyr eraill wneud penderfyniad gan y mwyafrif (yn hytrach na bod angen gwneud penderfyniad unfrydol fel yn achos ymddiriedolaeth breifat). Mewn rhai achosion, bydd hyn yn ddigonol er mwyn i'r ymddiriedolwyr elusen ddangos eu bod nhw wedi gwneud penderfyniad yn briodol heb iddo gael ei effeithio gan y gwrthdaro.

Er bod yr uchod yn amlinellu dull gweithdrefnol o reoli rhyw wrthdaro buddiannau gwirioneddol neu bosibl, mewn rhai achosion sy'n cynnwys partïon cysylltiedig neu, oherwydd perthynas, presennol neu hanesyddol, ni all y ffaith bod ymddiriedolwr neu ymddiriedolwyr yn sefyll i'r ochr neu wedi ymddiswyddo fod yn ddigonol i osgoi staen diffyg unplygrwydd neu'r argraff o wrthdaro posibl neu wirioneddol. Fel y sylwodd Gerald J yn ei benderfyniad ar 17 Hydref 2013 yn y Tribiwnlys Haen Gyntaf yn **Mountstar (PTC) Limited v The Charity Commission for England and Wales** 2013 WL 6865275, ni fydd mynd drwy'r camau gweithdrefnol o gydymffurfio ynddo'i hun yn cyflawni'r ddyletswydd sydd ar ymddiriedolwyr: Fel y mae'n datgan ym mharagraff 248:

> *".....even if the charity trustees have asked the "right" questions and taken into account the "right" factors, the Commission remains entitled to conclude in a suitable case that the charity trustee has reached the "wrong" answer ie it is a decision which no ordinary prudent man of business would reach acting independently of any conflicts of interest or loyalty."*

Yn yr achosion hynny, y ffordd fwyaf priodol o weithredu fyddai peidio ag ymrwymo i'r trafodiad neu'r trefniadau arfaethedig.

Fodd bynnag, yr ymddiriedolwyr perthnasol fydd yn penderfynu hyn, fel y dangosir gan achos **The Public Trustee & anor v Paul Cooper & ors** y cyfeirir ato uchod, lle mae un o'r ymddiriedolwyr yn penderfynu o'i wirfod i ymddiswyddo fel ymddiriedolwr o'r gronfa elusennol dan sylw cyn i'r gwrthdaro posibl yn codi o'i gyfranddaliad personol hyd sy'n oed wedi codi.

Perthnasedd achos **The Public Trustee v Cooper** i elusennau

Roedd elusen yn ymwneud â'r penderfyniad hwn ond roedd dwy gronfa ymddiriedolaeth breifat yn rhan o'r achos hefyd. Mae'n bosibl y byddai'r prawf a'r meini prawf y byddai'r llys yn eu dilyn wrth graffu ar benderfyniad arfaethedig neu wrth i'r ymddiriedolwyr elusen arfer eu disgresiwn (yn achos penderfyniad a wnaed eisoes, yn amodol ar gyfreitha gelyniaethus) yn ehangach ac yn llai rhwymedig na'r hyn a nodir gan Hart J yn **The Public Trustee & anor v Paul Cooper & ors**. Mae hyn oherwydd, yn achos elusennau, mae ystyriaethau budd cyhoeddus a all godi na fyddent yn codi yn achos ymddiriedolaethau preifat (e.e. y cwestiwn o fod yn dderbyniol o safbwynt budd cyhoeddus wrth ystyried telerau cynnig o setliad arfaethedig a fyddai yn ei hanfod yn ystyriaeth fasnachol pur mewn senario ymddiriedolaeth breifat) ac, yn y rhan fwyaf o achosion elusennau, bydd y budd buddiol cyfan wedi'i gynrychioli gan y Twrnai Gwladol yn hytrach na gan grŵp o fuddiolwyr preifat fel yn achos ymddiriedolaeth breifat.

Cyrff cyhoeddus fel ymddiriedolwyr

Weithiau mae pŵer gan awdurdodau lleol neu gyrff cyhoeddus eraill megis ymddiriedolaethau'r GIG i weithredu fel ymddiriedolwyr rhai elusennau. Pan fyddant yn gwneud hynny, mae'n rhaid iddynt sicrhau wrth weithredu fel ymddiriedolwr eu bod yn gweithredu er lles yr elusen yn unig ac nid ydynt yn gweithredu er eu lles nhw eu hunain fel yr awdurdod lleol neu'r corff cyhoeddus.

Yn **Manchester City Council v Greater Manchester County Council and others** (1980) 78 LGR 561 dywedodd y Llys wrth adolygu gwahanol benderfyniadau sy'n effeithio ar elusennau:

> *"The Council had no legal power to exercise direct personal control over the Trustees who were obliged under the general law to administer the trust fund in accordance with the purposes for which they held it."*

Yn **Maidment & Lennox Ryan v Charity Commission** CA/2009/0001 ac 0002 roedd y Tribiwnlys Haen Gyntaf (Elusen) wedi ystyried sefyllfaoedd tebygol lle y byddai buddiannau awdurdod lleol yn groes i'w ddyletswydd fel ymddiriedolwr elusen a dywedodd;

> *"the Tribunal is concerned to see governance arrangements put in place which will provide for the Committee of the Council which administers the charity to be able to make quorate decisions in the absence of those affected by a conflict of interest.....It therefore seems to the Tribunal that the important issue for the Respondent to provide for in amending the Scheme is the number of independent (ie non-conflicted) persons who are able to form a quorum of the Committee under its standing orders, rather than merely the number of independent persons who are appointed to that Committee, but unable to form a quorum."*

Mae'n amlwg bod y Tribiwnlys o'r farn bod angen cael corff heb wrthdaro sy'n gallu gwneud penderfyniadau ar fater arbennig. Nid oedd presenoldeb ymddiriedolwyr annibynnol yn ddigonol os oedd ymddiriedolwyr â gwrthdaro (fel sy'n amlwg o sylwadau Gerald J yn **Mountstar (PTC) Limited v The Charity Commission for England and Wales** a ddyfynnir uchod)). Nododd y Tribiwnlys mai'r unig ddewis arall i gael Pwyllgor heb wrthdaro annibynnol mewn rhai achosion oedd i'r Cyngor Bwrdeistref Dosbarth gysylltu â'r Comisiwn Elusennau i awdurdodi'r holl drafodion yn y dyfodol a effeithir gan y gwrthdaro buddiannau.

Yn yr un modd, yn **Sparrow & others v The Charity Commission for England and Wales & Another** (CA/2013/0006, CA/2013/0007 a CA/2013/0008) (penderfyniad dyddiedig 27 Mawrth 2014) roedd y Tribiwnlys Haen Gyntaf (Elusen) wedi beirniadu ymddiriedolwr awdurdod lleol am fethu â rheoli ei wrthdaro buddiannau gan farnu bod angen rhoi cynllun yn ei le gyda *"appropriate governance arrangements for the Charity to ensure the proper management of conflicts of interests and the proper stewardship of the property and assets of the Charity."*(paragraff 39)

Ymddiriedolwyr Corfforaethol yn gyffredinol

Yn **Mountstar (PTC) Limited v The Charity Commission for England and Wales** a nodir uchod, roedd Gerald J wedi egluro nad oed cyfarwyddwyr ymddiriedolwr corfforaethol yn ymddiriedolwyr elusen eu hunain. Yr ymddiriedolwr corfforedig yw'r ymddiriedolwr elusen ac mae gan gyfarwyddwyr yr ymddiriedolwr corfforaethol ddyletswyddau ymddiriedol i'r ymddiriedolwr corfforaethol. Os oes gwrthdaro gan un neu ragor ohonynt ac nid yw hyn yn cael sylw priodol gan yr ymddiriedolwr corfforaethol, yr ymddiriedolwr corfforaethol sy'n gweithredu'n groes i'w ddyletswydd i'r elusen.

7. Darpariaethau statudol ynghylch gwrthdaro buddiannau mewn perthynas â chwmnïau elusennol a sefydliadau corfforedig elusennol (SCE)

Er bod ymddiriedolwyr elusen cwmnïau elusennol a SCEau mewn sefyllfa ymddiriedol, mae'r dyletswyddau sydd arnynt wedi'u nodi yn y gyfraith statudol yn ogystal â'r rhai a sefydlwyd gan gyfraith gwlad. Yn achos cwmnïau elusennol, mae adran 178(2) o'r Ddeddf Cwmnïau 2006 (DC 2006) yn egluro bod y dyletswyddau statudol yn ddyletswyddau ymddiriedol y gellir eu gorfodi yn yr un ffordd ag unrhyw ddyletswydd ymddiriedol arall y mae gan gyfarwyddwyr i'w cwmni.

Mae adran 178(1) o DC 2006 yn nodi bod canlyniadau torri'r dyletswyddau statudol yr un fath â phe bai dyletswydd cyfraith gwald neu ddyletswydd gyfatebol yn gymwys.

7.1. Cwmnïau elusennol

Darpariaethau perthnasol allweddol DC 2006 mewn perthynas â gwrthdaro buddiannau yn eu hanfod yw'r rhai sydd wedi'u cynnwys ym Mhennod 2 Rhan 10 a gyflwynodd am y tro cyntaf y datganiad statudol o ddyletswyddau cyfarwyddwyr cwmnïau. Fel yr eglura is-adrannau 170(3) ac 170(4) o DC 2006, datganiad statudol y dyletswyddau hyn yn adrannau 171-177 yn ei hanfod yw cyfundrefnu cyfraith gwald, ac felly dylid dehongli'r dyletswyddau yn gyson â hyn:

> *"(3) The general duties are based on certain common law rules and equitable principles as they apply in relation to directors and have effect in place of those rules and principles as regards the duties owed to a company by a director.*
>
> *(4) The general duties shall be interpreted and applied in the same way as common law rules or equitable principles, and regard shall be had to the corresponding common law rules and equitable principles in interpreting and applying the general duties."*

Gwelwyd eisoes bod cyfarwyddwyr yn ôl cyfraith gwald mewn sefyllfa ymddiriedol ac felly'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd o beidio â rhoi eu hunain mewn sefyllfa lle mae buddiannau ganddynt sy'n gwrthdaro â'u dyletswydd i'r cwmni.

Yn fyr y dyletswyddau statudol yw:-

adran 171 Dyletswydd i weithredu o fewn pwerau

adran 172 Dyletswydd i hyrwyddo llwyddiant y cwmni

adran 173 Dyletswydd i arfer barn annibynnol

adran 174 Dyletswydd i arfer gofal, sgil a diwydrwydd rhesymol

adran 175 Dyletswydd i osgoi gwrthdaro buddiannau

adran 176 Dyletswydd i dderbyn buddiannau gan drydydd partïon

adran 177 Dyletswydd i ddatgan budd mewn trafodiad neu drefniadau arfaethedig

Fel y nodir uchod eisoes, mae rhai o'r rhwymedigaethau hyn wedi'u haddasu i'w gwneud yn gymwys i gwmnïau elusennol ac ymddiriedolwyr elusen. Mae adran 175(1) o DC 2006 yn amlinellu'r ddyletswydd sylfaenol i osgoi gwrthdaro buddiannau:

> *"(1)"A director of a company must avoid a situation in which he has, or can have, a direct or indirect interest that conflicts, or possibly may conflict, with the interests of the company."*

Mae adran 175(2) yn mynd ymlaen i fanylu y byddai cyfarwyddwr sy'n cael budd o ecsbloetio unrhyw wybodaeth am eiddo neu gyfle yn torri'r ddyletswydd hon er na allai'r cwmni ei hun elwa o ecsbloetio o'r fath:

> *(2)This applies in particular to the exploitation of any property, information or opportunity (and it is immaterial whether the company could take advantage of the property, information or opportunity)"*

Mae adran 175(3) fel y'i diwygiwyd gan adran 181 mewn perthynas ag elusennau yn datgan:

> *"This duty does not apply to a conflict of interest arising in relation to a transaction or arrangement with the company if or to the extent that the company's articles allow that duty to be so disapplied, which they may do only in relation to descriptions of transaction or arrangement specified in the company's articles."*

Mae erthygl 7 o erthyglau enghreifftiol y Comisiwn Elusennau (i'w gweld yn http://www.charitycommission.gov.uk/media/94703/gd1textc.pdf) yn amlinellu i ba raddau y byddwn yn ystyried y dylai'r erthyglau awdurdodi trefniadau o'r fath.

Mae Adran 175(4) yn datgan:

> *(4) This duty is not infringed-*
>
> *(a) if the situation cannot reasonably be regarded as likely to give rise to a conflict of interest; or*
>
> *(b) if the matter has been authorised by the directors.*

Mae adran 175(5) fel y'i diwygiwyd gan adran 181 mewn perthyna ag elusennau yn amlinellu'r gofyniad am awdurdodiad gan y cyfarwyddwyr -

> *"Authorisation may be given by the directors where the company's constitution includes provision enabling them to authorise the matter, by the matter being proposed to and authorised by them in accordance with the constitution."*

Mae erthyglau enghreifftiol y Comisiwn Elusennau yn amlinellu gweithdrefn yr ystyrir ei bod yn briodol at y diben hwn:

- Mae erthygl 9 yn cyfyngu'r cyfarwyddwyr i awdurdodi gwrthdaro teyrngarwch nad yw'n cynnwys rhoi budd uniongyrchol neu anuniongyrchol o unrhyw natur i gyfarwyddwr neu i unigolyn cysylltiedig.
- Mae erthygl 8 yn ei gwneud hi'n ofynnol i gyfarwyddwr sydd â budd uniongyrchol neu anuniongyrchol mewn trafodiad neu drefniadau arfaethedig gyda'r elusen i ddatgan y budd hwnnw a bod yn absennol o unrhyw drafodaethau'r cyfarwyddwyr lle mae posibilrwydd y bydd gwrthdaro yn codi. Mewn rhai achosion bydd hyn yn ddigonol i osgoi gwrthdaro buddiannau ac felly'n cydymffurfio â'r ddyletswydd yn adran 175(1).

Adran 190

Mae adran 190 DC 2006 yn amlinellu'r rheol sylfaenol ar gyfer cwmnïau, sef:

> *(1)* ***A company may not enter into an arrangement under which-***
>
> *(a) a director of the company or of its holding company, or a person connected with such* ***a director, acquires*** *or is to acquire* ***from the company*** *(directly or indirectly) a substantial non-cash asset,* ***or***
>
> *(b)* ***the company acquires*** *or is to acquire a substantial non-cash asset (directly or indirectly)* ***from such a director or a person*** *so* ***connected****,*
>
> ***unless the arrangement has been approved*** *by a resolution of the members of the company* ***or is conditional on such approval being obtained****.*

Mae ased anariannol 'sylweddol' yn cael ei ddiffinio'n fwy manwl yn adran 191 DC 2006 ond yn ei hanfod mae'n golygu unrhyw eiddo neu fudd mewn eiddo heblaw arian (gweler adran 1163 DC 2006) y mae ei werth (yn unol â throthwyon cyfredol):

> *(2) .....*
>
> *(a) exceeds 10% of the company's asset value and is more than £5,000, or*
>
> *(b) exceeds £100,000.*

Mae adran 191 yn mynd ymlaen i ddarparu sut y mae "gwerth ased" cwmni yn cael ei benderfynu.

Yr hyn sy'n glir o'r uchod yw bod adran 190 (a'r darpariaethau atodol cysylltiedig) yn enghraifft arall o fynegi'n statudol yr egwyddor bod rhaid i unrhyw wrthdaro buddiannau posibl, yn y cyd-destun hwn, rhwng cyfarwyddwr neu unigolyn sy'n gysylltiedig â chyfarwyddwr o'r fath a chwmni lle y mae'n gyfarwyddwr cwmni daliannol, gael ei osgoi neu ei awdurdodi'n briodol.

Mae hyn yn cael ei ategu ymhellach gan y ffaith bod adran 195 yn mynd ymlaen i amlinellu'r canlyniadau posibl o fethu â chydymffurfio â gofynion adran 190. Yn y bôn, mae'r adran olaf hon hefyd yn cyfundrefnu canlyniadau diffyg cydymffurfio a nodir yn Rhan 4 uchod: sef y gallai unrhyw drafodiad diawdurdod gael ei ddirymu gan y cwmni ar un llaw a bydd unigolyn(unigolion) sy'n gyfrifol am unrhyw drafodion neu drefniadau diawdurdod o'r fath yn atebol i roi cyfrif am unrhyw elw diawdurdod neu wneud iawn am unrhyw golledion dilynol. Mae Adran 195 yn darparu:

195 Property transactions: civil consequences of contravention

(1) This section applies where a company enters into an arrangement in contravention of section 190 (requirement of members' approval for substantial property transactions).

(2) ***The arrangement, and any transaction*** *entered into in pursuance of the arrangement (whether by the company or any other person),* ***is voidable at the instance of the company, unless....***

Ac fel y nodir uchod, mae adran 195(3) yn mynd ymlaen i ddweud:

(3) Whether or not the arrangement or any such transaction has been avoided, ***each of the persons specified in subsection (4) is liable-***

(a) ***to account to the company for any gain*** *that he has made directly or indirectly by the arrangement or transaction,* ***and***

(b) (jointly and severally with any other person so liable under this section) ***to indemnify the company for any loss or damage resulting from the arrangement or transaction***

Yna mae adran 195(4) yn mynd ymlaen i amlinellu'r categorïau posibl o unigolion a all, yn amodol ar eithriadau penodol, fod yn atebol am unrhyw weithredu'n groes o'r fath. Fodd bynnag, mae'n werth nodi bod y ddarpariaeth statudol yn ehangu'r categori hwn y tu hwnt i gwmpas y rhai a allai gael eu dal mewn ecwiti, gan gynnwys, er enghraifft, nid yn unig y cyfarwyddwr oedd yn barti i'r trafodiad neu'r trefniadau a/neu unrhyw unigolyn(unigolion) sy'n gysylltiedig ag ef/hi ond hefyd o bosibl:

(d) any other director of the company who authorised the arrangement or any transaction *entered into in pursuance of such an arrangement.*

Mae'n amlwg gan y gall elusennau gael eu sefydlu fel cwmnïau neu gallant gael eu corffori wedi hynny, er enghraifft, drwy drosglwyddo asedau o elusen anghorfforedig i gwmni newydd ei ffurfio ac mae peth, os nad y cyfan o'r cyfarwyddwyr hefyd yn ymddiriedolwyr yr elusen anghorfforedig flaenorol a/neu'n indemnio yn erbyn rhwymedigaethau parhaus posibl yn cael eu rhoi ar gyfer trosglwyddo asedau, mae'n hawdd rhagweld sefyllfaoedd lle y gallai cymhwyso darpariaethau adran 190 gael ei ysgogi. Gall senarios eraill gynnwys, er enghraifft, os yw ymddiriedolwr corfforaethol newydd ei benodi ac mae angen breinio asedau'r elusen ynddo gan yr ymddiriedolwyr elusen (yn wahanol i freinio statudol gan y Comisiwn ei hun e.e. drwy ddefnyddio ei bwerau gwneud cynllun).

Fodd bynnag, dylid nodi, mewn perthynas â chwmnïau elusennol, mae'r rhwymedigaethau o dan adran 190 wedi'u troshaenu ymhellach gan y gofynion ychwanegol a osodwyd gan adran 201 o DE 2011. Mae'r rhain yn datgan:-

201 Consent of Commission required for approval etc by members of charitable companies

(1) ***In the case of a charitable company, each of the following is ineffective without the prior written consent of the Commission-***

(a) ***any approval given*** *by the members of the company under any provision* ***of*** *Chapter 4 of Part 10 of the Companies Act 2006 (****transactions*** *with directors requiring approval by members)* ***listed in subsection (2), and***

(b) ***any affirmation*** *given by members of the company under section 196 or 214 of the 2006 Act (affirmation of unapproved property transactions and loans).*

(2) The provisions of the 2006 Act are-

(a) section 188 (directors' long-term service contracts);

(b) section 190 (substantial property transactions with directors etc);

(c) section 197, 198 or 200 (loans and quasi-loans to directors etc);

(d) section 201 (credit transactions for benefit of directors etc);

(e) section 203 (related arrangements);

(f) section 217 (payments to directors for loss of office);

(g) section 218 (payments to directors for loss of office: transfer of undertaking etc).

Mae adran 201(2) DE 2011 yn egluro bod yr un egwyddor hon yn gymwys hefyd i'r senarios penodedig eraill, e.e. benthyciadau gan gwmni i neu o gyfarwyddwyr lle y gallai'r un posibilrwydd o wrthdaro buddiannau godi.

Wedi dweud hynny, hyd yn oed os nad yw adran 190 DC 2006 ac adran 201 o DE 2011 (neu unrhyw ddarpariaethau a nodwyd yn adran 201(2) DE 2011) heb eu codi oherwydd, er enghraifft, nid yw'r trafodiad perthnasol yn fwy na'r trothwy ariannol penodedig sy'n ofynnol i greu trosglwyddo ased anariannol 'sylweddol' neu oherwydd nad yw'r parti i'r trafodiad neu'r trefniadau, er enghraifft, yn gwmni ond, dyweder, yn SCE, gall yr un mater o wrthdaro buddiannau posibl godi serch hynny a dylid ei osgoi neu ei awdurdodi'n briodol. Mewn achosion o'r fath, os nad yw awdurdodiad wedi'i ddarparu gan ddogfen lywodraethol yr elusen, fel rheol byddem yn disgwyl i awdurdodiad gael ei geisio neu ei ddogfennu drwy gyfrwng gorchymyn adran 105.

Wrth gwrs, bydd achosion pan sylweddolir wedi hynny neu ddaw i'r amlwg, heb unrhyw amhriololdeb bwriadol ar ran y partïon, y dylai cydsyniad adran 190 DE 2006 a chydsyniad adran 201 DC 2011, neu er enghraifft, cymeradwyaeth adran 197 am fenthyciad a chydsyniad adran 201 cysylltiedig fod wedi cael ei geisio ar gyfer trafodiad neu drefniadau arfaethedig. Yn yr amgylchiadau hyn, mae'r darpariaethau statudol yn darparu cyfnod o gyfle ar gyfer unioni diffygion gweithdrefnol technegol o'r fath drwy gadarnhad. Yn achos methu â chydymffurfio ag adran 190 DC 2006, mae adran 196 DC 2006 yn darparu:-

196 Property transactions: effect of subsequent affirmation

Where a transaction or arrangement is** entered into by a company in contravention of section 190 (requirement of members' approval) but, **within a reasonable period**, it is **affirmed-

(a) in the case of a contravention of subsection (1) of that section, by resolution of the members of the company, and

(b) in the case of a contravention of subsection (2) of that section, by resolution of the members of the holding company,

the transaction or arrangement may no longer be avoided under section 195

ac, mewn perthynas ag unrhyw gadarnhad dilynol o'r fath, mae adran 201(1)(b) DE 2011 yn adlewyrchu'r hyn a fyddai wedi bod yn ofynnol o dan adran 190 DC 2006, pe byddai wedi cydymffurfio ag ef yn gywir, sef, yr angen i geisio cydsyniad ysgrifenedig blaenorol y Comisiwn ar gyfer cadarnhad o'r fath. Mae adran 214 o DC 2014 yn darparu mewn perthynas â benthyciadau ddarpariaeth gyfatebol am gadarnhad o dan adran 196 o DC 2006 ac, wrth gwrs, mae hyn yn gofyn am gymeradwyaeth blaenorol y Comisiwn o dan adran 201 o DE 2011 fel sy'n amlwg o'r adran honno.

Er bod adran 196 o DE 2011 dim ond yn datgan os yw trafodiad neu drefniadau wedi'u cadarnhau wedi hynny, mae'n bosibl na fydd y trafodiad wedi'i osgoi mwyach o dan adran 195 DC 2006, yn ein barn ni, os yw'r trafodiad yn cydymffurfio ag adran 201 DE 2011, mae cadarnhad o'r fath yn weithredol fel pe bai'r trafodiad wedi cael ei awdurdodi'n briodol yn y lle cyntaf ac felly, yn rhesymegol, nid yw'r atebion eraill o dan adran 195(3) o DC 2006 ar gael mwyach mewn achosion o'r fath. Mae'r un ymagwedd yn gymwys i gadarnhau benthyciadau o dan adran 214 o DC 2006 ac adran 201 o DE 2011.

7.2 SCEau

Mae dyletswyddau ymddiriedolwyr elusennau SCEau yn debyg i ddyletswyddau cyfarwyddwyr cwmni sef:

A) mae adran 221(1) o DE 2011 yn dweud:

> *"(1) Each charity trustee of a CIO must exercise the powers and perform the functions that the charity trustee has in that capacity in the way that the charity trustee decides, in good faith, would be most likely to further the purposes of the CIO."*

Mae'r ddyletswydd hon yn cyfateb i ddyletswydd cyfarwyddwyr cwmni elusennol a nodir yn adran 171 DC 2006, fel yr addaswyd gan is-adran 170(2), a'r hyn sydd wedi'i gynnwys yn adrannau 172 ac 174 DC 2006.

B) mae adran 222 yn dweud

> *"(1) A charity trustee of a CIO may not benefit personally from an arrangement or transaction entered into by the CIO if, before the arrangement or transaction was entered into, the charity trustee did not disclose to all the charity trustees of the CIO any material interest (whether direct or indirect) which the charity trustee had in it or in any other person or body party to it.*
>
> *(2) Nothing in subsection (1) confers authority for a charity trustee of a CIO to benefit personally from any arrangement or transaction entered into by the CIO."*

C) Mae Rheoliad 34 o'r Rheoliadau Sefydliadau Corfforedig Elusennol (Cyffredinol) 2012 (SI 2012/3012) yn datgan na all ymddiriedolwr elusen SCE dderbyn budd gan drydydd parti a roddir oherwydd bod yr ymddiriedolwr elusen yn ymddiriedolwr elusen y SCE neu oherwydd ei fod yn gwneud neu nid yw'n gwneud rhywbeth fel ymddiriedolwr elusen. Nid yw'r ddyletswydd yn cael ei thorri os nad yw'n rhesymol i ystyried y byddai derbyn y budd yn arwain at wrthdaro buddiannau (rheoliad 34(3)).

CH) Mae Rheoliad 36 o Reoliadau Sefydliadau Corfforedig Elusennol (Cyffredino) 2012 (SI 2012/3012) yn datgan na all ymddiriedolwr elusen a fyddai'n cael budd personol, boed yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, o drafodiad neu drefniadau y mae'r SCE yn cynnig ymrwymo iddynt gymryd rhan wrth wneud y penderfyniad i ymrwymo i'r trafodiad neu'r trefniadau. Mae hefyd yn datgan na all ymddiriedolwr elusen o'r fath gael ei gyfrif yn y cworwm sydd ei angen ar gyfer cyflawni'r busnes hwnnw.

Mae hyn hefyd yn gymwys i benderfyniad aelodau'r SCE. O dan adran 220 o Ddeddf Elusennau 2011 mae'n rhaid i aelod o'r SCE arfer y pwerau sydd gan yr aelod yn y rhinwedd honno yn y ffordd y mae'r aelod yn penderfynu mewn ewyllys da fyddai'n fwyaf tebygol o hyrwyddo dibenion y SCE. Yn unol â hynny, mae gan aelod o SCE ddyletswyddau ymddiriedol hefyd i'r elusen a rhaid iddo fod yn ofalus i wneud penderfyniad er lles yr elusen yn unig. Ni all ef neu hi gymryd rhan mewn penderfyniad i ymrwymo i drafodiad neu drefniadau y bydd yr aelod yn cael budd ohono, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, ac ni ddylai gael ei gyfrif yn y cworwm sydd ei angen ar gyfer penderfyniad o'r fath.